


Safonau'r Gymraeg

Adroddiad Monitro Blynyddol 2016-2017



Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg
This document is available in English

1. Cyflwyniad

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i gynnig gwasanaeth gwych i siaradwyr Cymraeg yn yr ardal ac yn ymdrechu i wella'i wasanaeth flwyddyn ar ôl blwyddyn.

Yn ystod 2015, cyflwynwyd Hysbysiad Cydymffurfiaeth cyfreithiol i ni gan Gomisiynydd y Gymraeg yn nodi'r Safonau sy'n berthnasol i'r Cyngor.

Er mwyn cyflawni'r 174 o safonau yn yr hysbysiad mae'r Cyngor wedi datblygu Cynllun Gweithredu cynhwysfawr sydd wedi'i gyhoeddi ar ein gwefan. Monitrir cynnydd yn rheolaidd ac mae manylion llawn wedi'u cynnwys yn yr adroddiad hwn.

2. Prif gyflawniadau 2016/17

- **Gwefan**

Yn ystod 2016/17, gwnaeth y Cyngor adolygu a diweddarau ei wefan yn drylwyr. Yn rhan o'r broses hon, mae pob tudalen ar y wefan wedi'i chyfieithu ac mae cynnwys y safle yn gwbl ddwyieithog. I sicrhau bod y wefan yn parhau i fod yn ddwyieithog a bod yr holl gynnwys Cymraeg yn gyfredol, mae proses gymeradwyo newydd ar gyfer tudalennau newydd a diweddariadau i gynnwys presennol bellach ar waith. Mae rhaglen o hyfforddiant hefyd ar y gweill i sicrhau bod yr holl olygwyr cynnwys yn gallu cynnal adrannau Cymraeg a Saesneg y wefan. Yn ogystal â'r wefan, mae'r Cyngor yn gweithredu sianeli cyfryngau cymdeithasol Cymraeg a Saesneg ac mae'r Tîm Cyfathrebiadau wedi nodi bod cael cynulleidfa fwy ar gyfer y Gymraeg yn flaenoriaeth ar gyfer 2017/18.

- **Canolfan Gyswilt a phrif ardaloedd derbynfa**

Mae'r Cyngor yn parhau i weithredu strategaeth rhif ffôn sengl ar gyfer holl wasanaethau'r Cyngor. Hysbysebiri y rhif hwn yn ddwyieithog a chaiff pob galwr y dewis i siarad am ei ymholiad yn Gymraeg. Yn ystod blwyddyn ariannol 2016/17, dewisodd 1283 o alwyr i siarad am eu hymholiad yn Gymraeg (2015/16: 1337).

Atebwyd galwadau'r rhai hynny a ddewisodd Gymraeg ymhen 35 eiliad ar gyfartaledd trwy'r flwyddyn. Mae hyn yn cymharu â 46 eiliad ar gyfer galwadau Saesneg. Yn gyffredinol, datryswyd 68% o ymholiadau ar y pwynt cyswllt cyntaf, heb angen trosglwyddo'r galwr i adran arall. Ar gyfer y nifer uchaf o ymholiadau, megis Rheoli Gwastraff, dros 95% yw'r gyfradd ddatrys ar y pwynt cyswllt cyntaf. Mae hyn yn golygu bod y rhan fwyaf o ymholiadau yn Gymraeg yn cael eu datrys gan aelod o staff sy'n siarad Cymraeg yn y ganolfan gyswllt. Mae nifer y Cynrychiolwyr Gwasanaeth Cwsmeriaid (CGC) dwyieithog a gyflogwyd yn y ganolfan gyswllt gorfforaethol wedi parhau i fod yn gyson ar 13% o'r holl CGCau.

Mae CDCau â sgiliau amrywiol a gallant ddelio ag ymholiadau Cymraeg trwy'r holl sianeli cyfathrebu – e-bost, SMS, wyneb yn wyneb neu gyfryngau cymdeithasol. Yn ystod y flwyddyn, mae o leiaf un aelod o staff sy'n ddwyieithog wedi bod ar gael yn y prif dderbynfeydd corfforaethol yn y Swyddfeydd Dinesig a Swyddfa'r Dociau.

Ym mis Chwefror 2017, dechreuodd y ganolfan gyswllt dderbyn ymholiadau gan drigolion Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr trwy rif ffôn unigryw newydd ar gyfer Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir.

Yn ogystal, cafodd pob person a ffoniodd y gwasanaeth hwn y dewis i barhau â'i ymholiad yn Gymraeg. Disgwylir i drigolion yn ardal Cyngor Caerdydd ddechrau defnyddio'r gwasanaeth ffôn hwn yn ystod 2017.

- **Hyfforddiant ar yr iaith Gymraeg**

Mae'r Cyngor wedi parhau i gefnogi dosbarthiadau Cymraeg ffurfiol ar gyfer staff yn y gweithle yn ogystal â chynnal sesiynau blasu rheolaidd mewn lleoliadau amrywiol. Mae hyn wedi helpu i gynyddu nifer y staff sydd wedi cofrestru eleni o 21 i 77. Yn ogystal, rydym wedi parhau i ganiatáu i staff fynychu dosbarthiadau yn ystod y gwaith gyda chysiau'n cael eu talu yn fewnol gan y timau perthnasol yn y Cyngor.

Gall staff sy'n siarad Cymraeg hefyd fynychu sesiwn gyda'r nos wythnosol yn y Barri lle bo sawl gweithgaredd ar gael yn Gymraeg.

Rydym wrthi'n trefnu hyfforddiant ymwybyddiaeth Cymraeg ar-lein a gaiff ei gyflwyno i'r holl staff yn ystod haf 2017.

- **Cytundeb gyda Menter Bro Morgannwg**

Heblaw am ein dyletswyddau statudol, mae menter newydd wedi'i chytuno'n ddiweddar gyda Menter Bro Morgannwg lle bo'r Cyngor yn rhoi arian i'r Fenter i gynnig cyfleoedd ym Mro Morgannwg i siaradwyr Cymraeg fwynhau gweithgareddau cymdeithasol yn ogystal ag ategu gweithgareddau cyn ysgol ac ar ôl ysgol ar gyfer pobl ifanc. Mae hyn wedi cynnwys ymgysylltu â'n timau ieuenctid, addysg i oedolion ac ysgolion.

- **Cyhoeddi strategaeth 5 mlynedd**

Mae strategaeth hybu Cymraeg y Cyngor wedi'i chymeradwyo'n ddiweddar gan y Cabinet. Mae'r ddogfen hon yn nodi sut rydym yn bwriadu gweithio gyda phartneriaid allweddol i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg ym Mro Morgannwg yn ystod y 5 mlynedd nesaf. Mae copi o'r strategaeth ar gael ar wefan y Cyngor.

- **Cytundeb cyfieithu newydd gyda Chyngor Caerdydd**

O ganlyniad i ofynion Safonau'r Gymraeg, ers mis Gorffennaf 2016 mae'r Cyngor wedi bod yn comisiynu ei wasanaethau cyfieithu gan Gyngor Caerdydd. Mae hyn wedi galluogi staff i anfon ceisiadau cyfieithu yn uniongyrchol trwy system logio ar-lein. Yn ystod 2016/17, mae tua 1.4 miliwn o eiriau wedi'u cyfieithu i'r Gymraeg. Mae hyn yn cyfateb i swm blynyddol o 1.9 miliwn o eiriau sy'n costio £157,000. Mae hyn wedi cynnwys datganiadau i'r wasg, adroddiadau a diweddariadau i'r wefan yn ogystal â dogfennau. Dyma gynnydd sylweddol o ran swm a chost ar flynyddoedd blaenorol.

- **Asesiad Sgiliau Ieithyddol**

Cynhaliodd y Cyngor archwiliad helaeth ar alluoedd Cymraeg ym mis Mai 2016. Rhoddodd hyn syniad i ni o niferoedd a lefelau'r staff ym mhob adran o'r Cyngor

sydd â sgiliau Cymraeg. Cofnodon ni hefyd y staff y mae'n well ganddynt dderbyn gwybodaeth benodol yn Gymraeg ac a ydynt yn fodlon defnyddio eu sgiliau iaith yn y gweithle. Yn ogystal, gofynnwn ni am y bobl hynny sydd â diddordeb mewn dysgu. Mae hyn wedi bod yn ddefnyddiol wrth gynllunio hyfforddiant a datblygiad. Mae ffigurau eleni yn cynnwys ffurflenni a gwblhawyd â llaw gan staff nad ydynt yn gweithio mewn swyddfa.

- **Briffiau/Cyfathrebiadau â Staff**

Derbyniodd staff wybodaeth trwy gydol 2015/16 er mwyn eu hatgoffa o'u dyletswyddau dan y Safonau. Gwnaethpwyd hyn trwy nodiadau briffio, tudalen ar ein Staffnet ac yn fwy diweddar, ymgyrch TG mewnol ('Meddwl am y Gymraeg'). Byddwn hefyd yn achub ar y cyfle yn ystod hyfforddiant Ymwybyddiaeth Cymraeg ar-lein i atgoffa pobl am eu cyfrifoldebau.

- **Gwiriwr sillafu/troednodiadau e-bost Cymraeg ac ati**

Mae pob aelod o staff sy'n siarad Cymraeg wedi derbyn copi o 'Cysgair' ar ei gyfrifiadur. Rydym wedi trefnu i bob aelod o staff y Cyngor gael troednodiadau dwyieithog gyda theitlau eu swyddi a negeseuon allan o'r swyddfa ddwyieithog.

3. Crynodeb o Gynllun Gweithredu'r Cyngor gyda Chynnydd

	Cam Gweithredu	Meysydd wedi'u cynnwys	Cyf. y Safon	Sylw/diweddariad
1	Rhoi nodyn briffio i uwch reolwyr/Aelodau Etholedig yng nghyfarfodydd y tîm rheoli corfforaethol/y tîm rheoli adrannol/timau	Gohebiaeth Galwadau ffôn Cyfarfodydd/apwyntiadau Digwyddiadau Cyhoeddus Cyhoeddi dogfennau ar gyfer y cyhoedd Ymatebion cyfryngau cymdeithasol Polisiâu/strategaethau sydd ar gael i'r cyhoedd Trwyddedau/tystysgrifau Hysbysiadau swyddogol Hybu'r Gymraeg Systemau Annerch y Cyhoedd	1-5 19/20/21 24-26b, 27a-d,30-34,65-66 35-38 43-50 58-59 44 42 69-70 81-82 87	Mae nodyn briffio wedi'i gyhoeddi ar y staffnet a'r briff craidd. Mae cwestiynau wedi'u codi felly mae tudalen cwestiynau cyffredin ar gael ar staffnet. Bu trafodaeth mewn cyfarfodydd tîm adrannol yn ystod mis Mai a mis Mehefin 16.
2	Rhoi briff i'r Cabinet Busnes/uwch reolwyr/aelodau etholedig eraill	Gohebiaeth Galwadau ffôn Cyfarfodydd/apwyntiadau Digwyddiadau Cyhoeddus Cyhoeddi dogfennau ar gyfer y cyhoedd Ymatebion cyfryngau	1-5 19/20/21 24-26b, 27a-d,30-34,65-66 35-38 43-50 58-59 44	Rhodddwyd briff i aelodau'r Cabinet ym mis Chwefror 16. Cynhaliwyd sesiwn ar gyfer yr holl aelodau etholedig ar 11 Mai. Caiff sesiynau newydd eu cynnal ar gyfer aelodau etholedig newydd.

		<p>cymdeithasol</p> <p>Polisiâu/strategaeth au sydd ar gael i'r cyhoedd</p> <p>Trwyddedau/tystysg rifau</p> <p>Hysbysiadau swyddogol</p> <p>Hybu'r Gymraeg</p> <p>Systemau Annerch y Cyhoedd</p>	<p>42</p> <p>69-70</p> <p>81-82</p> <p>87</p>	
3	Creu tudalen ar Staffnet y Cyngor i roi gwybod i staff am eu cyfrifoldebau.	Fel yr uchod.	Fel yr uchod.	Mae rhestr o gwestiynau cyffredin wedi'i chreu ac mae ar y staffnet. Mae tudalen ar gyfer siaradwyr Cymraeg hefyd wedi'i datblygu.
4	Rhoi gwybodaeth i staff trwy'r briff craidd a dulliau eraill	Fel yr uchod.	Fel yr uchod.	Rhoddwyd gwybodaeth i staff ym mis Chwefror 16 trwy'r briff craidd ac mae diweddariadau wedi parhau.
5	Sicrhau bod holl dempledi llythyron ac e-byst yn ogystal ag ymatebion i'r wasg yn nodi bod gwasanaeth Cymraeg ar gael a sicrhau bod yr holl aelodau o staff yn eu defnyddio.	Gohebiaeth (yn cyfeirio hefyd at nifer o Safonau Gweithredol)	7 Hefyd yn cyfeirio at Safonau Gweithredol 134/135	Mae templedi wedi eu cyhoeddi i'r holl aelodau o staff. Mae teitlau swyddi wedi'u cyfieithu yn ymddangos ar bob E-bost.
6	Cynnig hyfforddiant 'Cwrdd a Chyfarch' i staff y rheng flaen	Galwadau ffôn/cyfarfodydd	19,20,21,24-27	Bu hyfforddiant ar gyfer staff y Gwasanaethau Cymdeithasol ar 4

				Mai 16. Dechreuodd cwrs blasu 6 wythnos a drefnwyd ar 10 Mai 16. Yn ogystal, bu cwrs i bobl sy'n gwella ym mis Mehefin 16. Bydd cyrsiau blasu pellach yn 2017.
7	Sicrhau bod pob aelod o staff yn defnyddio negeseuon allan o'r swyddfa dwyieithog. Mae hefyd angen troednodiadau arnom i ddangos a yw staff yn rhugl. Ni ddylai fod oedi os caiff Cymraeg ei defnyddio.	Gohebiaeth (yn cyfeirio hefyd at safonau gweithredol)	7, Hefyd yn cyfeirio at Safonau Gweithredol 134/138	Rhan o'r Staffnet ac ar y Briff Craidd Mae negeseuon allan o'r swyddfa wedi'u rhoi i bob aelod o staff.
8	Sicrhau bod yr holl ddatganiadau i'r wasg yn ddwyieithog lle bo'n bosibl.	Cyhoeddi dogfennau a ffurflenni	46	Mae hyn wedi bod ar waith ers 1 Ebrill.
9	Sicrhau bod yr holl daflenni, dogfennau, datganiadau a datganiadau i'r wasg Saesneg yn cyfeirio at y ffaith bod fersiwn Gymraeg ar gael ar gais.	Cyhoeddi dogfennau a ffurflenni	46	Mae hyn wedi bod ar waith ers 1 Ebrill.
10	Trefnu cymorth i ddechrau'r broses o wneud y wefan gyfan yn ddwyieithog.	Gwefan a gwasanaethau ar-lein	52-56	Mae'r wefan bellach yn gwbl ddwyieithog.
11	Trefnu i ffurflenni fod yn ddwyieithog o flaen llaw	Gwefan a gwasanaethau ar-lein	51	Mae'r holl geisiadau mewnol yn cael eu cyfieithu – mae ceisiadau allanol yn dal i gael eu hadolygu.

12	Sicrhau bod yr holl arwyddion a/neu hysbysiadau newydd neu sy'n cael eu hadnewyddu yn ddwyieithog gyda'r Gymraeg yn gyntaf.	Arwyddion/hysbysia dau	61-63	Mae pob aelod o staff wedi'i atgoffa am hyn.
13	Sicrhau bod derbynfydd yn cynnig gwasanaeth Cymraeg gydag arwyddion sy'n nodi bod y gwasanaeth ar gael.	Derbynfydd	64,67,68	Mae pob derbynfa bellach yn ddwyieithog.
14	Rhaid i wahoddiadau am grantiau nodi y gall cyflwyniadau fod yn Gymraeg a rhaid cynnig cyfweiliadau yn Gymraeg os gofynnir am hyn. Ni ddylai fod oedi os caiff Cymraeg ei defnyddio.	Grantiau/Tendrau	72-75	Mae'r wybodaeth hon wedi'i dosbarthu yn yr Adran Gyllid.
14 a	Rhaid i wahoddiadau i dendro ar gyfer contractau fod yn ddwyieithog a rhaid iddynt nodi bod croeso i dendrau Cymraeg. Ni ddylai fod oedi os caiff Cymraeg ei defnyddio.	Grantiau/Tendrau	76-77a	Fel yr uchod.
15	Asesu pob cwrs addysg newydd a gynigir i'r cyhoedd i werthuso'r angen i'w gynnig yn Gymraeg <u>a chadw cofnod o'r asesiad.</u>	Addysg	84-86	Mae'r Gwasanaeth leuencid ac Addysg i Oedolion wedi cael gwybod am hyn.
C1	Cyfieithu agenda	Democrataidd	41	Mae hyn wedi bod

6	pob cyfarfod y Cyngor, y Cabinet a Phwyllgorau.			ar waith ers 1 Ebrill 16.
17	Cyfieithu cofnodion pob cyfarfod y Cyngor, y Cabinet a Phwyllgorau.	Democrataidd	41	Mae agendaau ar gael yn ddwyieithog.
18	Cwblhau asesiad effaith, gan gynnwys ystyried y Gymraeg, ar yr holl bolisiau newydd neu wedi'u diwygio.	Polisiau ac ymchwil	88-97	I gael ei gyflawni gan gyfeirio ato mewn adroddiadau cabinet/pwyllgor perthnasol
19	Sefydlu grŵp projectau i drefnu holiadur i bob aelod o staff	Sgiliau ieithyddol a dewisiadau iaith ar gyfer ffurflenni a gweithdrefnau	104, 127,100,101-103	Mae'r grŵp wedi cyfarfod yn rheolaidd. Mae arolwg wedi bod ar ddefnyddwyr cyfrifiaduron. Bu ymarfer pellach i gysylltu â staff llaw.
20	Cyfieithu holl bolisiau AD	Holl bolisiau AD	105 – 111	Mae pob polisi bellach wedi'i gyfieithu.
21	Codi ymwybyddiaeth staff o ran cynnig darpariaeth Gymraeg mewn perthynas â chontractau, cwynion a sefyllfaoedd disgyblaethol newydd	Briffio	99,114,118	Mae rhestr wedi'i chreu ar gyfer y defnyddwyr hynny sy'n gofyn am y Gymraeg Bydd tudalen ar y Staffnet yn rhestru'r eitemau penodol y mae'n rhaid i ni eu darparu yn Gymraeg.
22	Paratoi tudalen ar y staffnet ac erthygl yn y Briff Craidd yn rhoi gwybod i staff sy'n siarad Cymraeg am eu hawliau a rhoi cymorth i ddysgwyr.	Gweithdrefnau AD	112 – 125,141-143	Mae hyn bellach ar gael.
23	Rhoi meddalwedd i	Meddalwedd TGCh	120	Mae 'Cysgair'

.	staff sy'n siarad Cymraeg ar gyfer gwirio sillafu a gramadeg a rhyngwynebau Cymraeg lle bo ar gael.			wedi'i osod ar gyfrifiaduron yr holl staff sy'n siarad Cymraeg.
24	Cynnig cyfleoedd ar gyfer hyfforddiant Cymraeg <u>sy'faenol</u> i'r holl aelodau o staff <u>yn ystod oriau gwaith</u> a hefyd i reolwyr os oes ei angen yn eu rolau. Dylai hyfforddiant pellach fod am ddim.	Hyfforddiant	130 -131	Mae cyrsiau blasu wedi'u cynnal ac mae hyn wedi helpu i gynyddu nifer y dysgwyr ar gyrsiau llawn amser.
25	Cynnig hyfforddiant ymwybyddiaeth o'r Gymraeg	Hyfforddiant	132	Bu'r sesiwn gyntaf ym mis Mai 16 ar gyfer staff y Gwasanaeth Cymdeithasol. Mae cynlluniau i gynnig hyfforddiant ar-lein i'r holl staff.
26	Cynnwys gwybodaeth Gymraeg yn y Cyfnod Sefydlu Corfforaethol	Hyfforddiant	133	Eisoes wedi'i gynnwys a'i gyflwyno.
27	Asesu'r holl swyddi newydd a gwag ar gyfer lefel y Gymraeg y mae ei angen a chofnodi fel sy'n briodol – Hanfodol/Angen dysgu/Dymunol/Dd im yn angenrheidiol	Adolygu gweithdrefnau	136	Bydd ar waith o 1 Ebrill ymlaen. Mae'r holl reolwyr wedi cael gwybod. Mae'r holl swyddi bellach wedi'u categorio fel rhai 'Hanfodol' neu 'Dymunol'
28	Yr holl ddeunydd perthnasol sy'n ymwneud â recriwtio i fod ar gael yn Gymraeg a Saesneg	Gweithdrefnau recriwtio/dethol	137	Wedi'i gyfieithu ac eisoes yn cael ei anfon allan.

29	Paratoi polisi ar y defnydd o Gymraeg yn fewnol	Ymwybyddiaeth	98	Mae copi ar gael.
30	Dylai'r fewnrwyd fod ar gael yn Gymraeg – hafan, tudalennau newydd/wedi'u diwygio a dewislenni.	TGCh/tîm cyfathrebiadau	122-126	Caiff y Staffnet ei gyfieithu. Fodd bynnag, y wefan allanol yw'r flaenoriaeth.
31	Cyrsiau AD penodol i gael eu cynnig yn Gymraeg- <ul style="list-style-type: none"> - Recriwti o a chyfweld - Rheoli Perfformiad - Cwynion a gweithdr efnau disgyblu - Cyfnod sefydlu - Delio gyda'r cyhoedd - Iechyd a Diogelwch 	Hyfforddiant AD	128	Gofynnir i staff newydd sy'n gofyn am gyrsiau yn Gymraeg aros tan fod nifer o enwau ar gael er mwyn gwneud y cwrs yn bosibl.
32	Cynnig hyfforddiant ar ddefnyddio'r Gymraeg yn effeithiol mewn cyfarfodydd AD	Hyfforddiant	129	Trafodir hyn yn yr ychydig fisoedd nesaf.
33	Nodi aelod o staff ym mhob adran i weithredu fel hyrwyddwr.			Mae hyn wedi'i wneud ac mae rhestr ar gael.

4. Gwybodaeth am berfformiad

Mae'r Cyngor yn casglu ac adrodd gwybodaeth am yr holl fesurau sy'n fesurau statudol cenedlaethol ac yn pennu targedau ar eu cyfer. Rydym hefyd wedi mabwysiadu nifer cyfyngedig o ddangosyddion lleol sy'n cynorthwyo yn y gwaith o fesur cynnydd yn erbyn y cynllun hwn. Mae'r wybodaeth hon ar gael yn gyhoeddus yng Nghynllun Gwella'r Cyngor a chynlluniau gwasanaeth sy'n cael eu cyhoeddi bob blwyddyn ac sydd ar gael ar wefan y Cyngor www.valeofglamorgan.gov.uk neu www.bromorgannwg.gov.uk

Yn ogystal â hyn, bydd y Cyngor yn cyhoeddi'r adroddiad hwn ar adran Gydraddoldeb gwefan y Cyngor ynghyd â data arall ar faterion iaith.

Mae'r wybodaeth isod yn cyfeirio at ddangosyddion yn ôl cyfarwyddyd Comisiynydd y Gymraeg.

<p>Safon 158 (2) 164 (2) 170 (2d)</p> <p>Nifer y cwynion am weithredu Cynllun Iaith Gymraeg.</p> <p>Caiff y dangosydd perfformiad hwn ei fesur ar sail nifer y cwynion hynny am gynnwys neu weithredu Cynllun Iaith Gymraeg, a gaiff eu harchwilio gan y Tîm Cydraddoldeb a fydd hefyd yn ymateb iddynt.</p>	<p>Derbyniodd y Cyngor 17 cwyn gan aelodau o'r cyhoedd a'r Comisiynydd. Roedd 13 o'r rhain gan yr un achwynydd. Daeth 4 o'r 17 yn ymchwiliadau.</p> <p>Derbyniodd y Cyngor chwe ymchwiliad. Cafodd pedwar eu cadarnhau ac rydym yn aros am hysbysiad terfynol. Ni chafodd dau eu cadarnhau.</p>				
<p>Safon 170 (2a)</p> <p>Nifer y staff sydd â sgiliau Cymraeg yn y Cyngor.</p> <p>Mae'r dangosydd hwn wedi'i fesur yn rhan o'r Arolwg Sgiliau Ieithyddol ym mis Ebrill 2016.</p>	<p>Mae 151 o aelodau o staff wedi nodi eu bod yn 'dda' neu'n 'rhugl' o ran darllen, ysgrifennu neu siarad Cymraeg. Mae hyn yn ymwneud â 2745 o ymatebion i'r arolwg ieithyddol diweddar. (5.5%) ac yn cynnwys staff llaw yn ogystal â chyflogeion mewn swyddfa.</p>				
<p>Safon 170 (2b)</p> <p>• Nifer y staff sy'n gwneud hyfforddiant ac ar ba lefel/gradd o</p>	<table border="0"> <tr> <td style="text-align: center;"><u>2016/17</u></td> <td style="text-align: center;"><u>2015/16</u></td> </tr> <tr> <td style="text-align: center;">Lefel Mynediad 61</td> <td style="text-align: center;">14</td> </tr> </table>	<u>2016/17</u>	<u>2015/16</u>	Lefel Mynediad 61	14
<u>2016/17</u>	<u>2015/16</u>				
Lefel Mynediad 61	14				

<p>allu.</p> <p>Bydd hyn ar sail nifer y staff sy'n gwneud hyfforddiant Cymraeg a gynigir gan y Cyngor. Caiff y mesur hwn ei adrodd fel rhif dan bob un o'r categorïau: Mynediad a Sylfaenol; Canolig; Uwch; Uwch/Meistr.</p>	<p>Sylfaen 6 6</p> <p>Canolradd 8 0</p> <p>Uwch/Meistr 2 1</p> <p>Cyfanswm 77 2016/17 21 2015/16</p> <p>Mae hyn yn gynnydd sylweddol o ganlyniad i ymgyrch barhaus.</p>
<p>Safon 154,170 ch)</p> <p>Nifer y swyddi newydd a gwag y nodir bod y Gymraeg yn hanfodol neu'n ddymunol ar eu cyfer.</p>	<p>Ebrill 2016 – Mawrth 2017 -501 0 hysbysebion wedi'u logio:</p> <ul style="list-style-type: none"> • 29 yn Gymraeg hanfodol • 472 yn Gymraeg ddymunol <p>Mae'r holl hysbysebion naill ai'n Gymraeg hanfodol neu Gymraeg ddymunol.</p>

Blaenoriaeth y Cyngor ar gyfer 2017/18 yw cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yn y gweithle a pharau i hybu'r defnydd o'r iaith yn y Fro.